

Llys Teulu Cyffuriau Ac Alcohol (LLTCA/FDAC) Cenedlaethol Cymru A Gweithdai Datrys Problemau: Dysgu Ac Argymhellion

Cyflwyniad

Sefydlwyd Gweithgor Cenedlaethol y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol (FDAC) yn dilyn cyhoeddi [gwerthusiad CASCADE 2024 o gynllun peilot y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol \(LITCA/FDAC\)](#) yn Ne-ddwyrain Cymru ac argymhelliad gan y Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y camau nesaf. Pwrpas cyffredinol y Grŵp yw archwilio sut y gallai dulliau datrys problemau o fewn achosion cyfraith gyhoeddus gyfrannu at leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Fe'i cynhaliwyd i archwilio'r gallu i dyfu yn unol â'r gofynion, cynaliadwyedd a chyfeiriad y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yng Nghymru yn y dyfodol, gan ddod â chynrychiolwyr o'r gwasanaethau plant, Cafcass Cymru, Llywodraeth Cymru, iechyd, plismona a pholisi defnyddio sylweddau at ei gilydd, ynghyd â chyfranwyr arbenigol fel y Ganolfan Arloesi ym maes Cyfiawnder ac Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

Trwy gyfres o gyfarfodydd, mae'r Gweithgor wedi adolygu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol, gan gynnwys ei effaith ar ganlyniadau ailuno a chost-effeithiolrwydd, ac wedi ystyried goblygiadau ymarferol y posibilrwydd o gyflwyno hyn yn genedlaethol. Mae trafodaethau wedi tynnu sylw at heriau allweddol, gan gynnwys amrywiaeth ranbarthol o ran argaeledd gwasanaethau, hygyrchedd llysoedd, cyllid cynaliadwy, a'r angen am ymrwymiad aml-asiantaeth cryf, cydgyssylltiedig. Mae'r Grŵp hefyd wedi pwysleisio pa mor bwysig yw deall sut mae'r Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn ategu'r ddarpariaeth bresennol yng Nghymru, gan gynnwys Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS) a modelau ymyrraeth gynnar ac ymylon gofal eraill, gan danlinellu'r angen i gryfhau'r gwasanaethau presennol ochr yn ochr ag unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol.

Gan adeiladu ar weithredu model y Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn yn llwyddiannus yn genedlaethol mewn achosion cyfraith teulu preifat, mae'r Gweithgor wedi tynnu ar yr hyn a ddysgwyd, ochr yn ochr â phrofiad gan y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol, i archwilio sut y gellid gwreiddio dull datrys problemau, therapiwtig o fewn achosion cyfraith gyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut y gellid cymhwyso elfennau craidd model y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn ehangach. Cafwyd cydnabyddiaeth gynnar na all unrhyw fodel ar gyfer Cymru gyfan fod yn fodel a fyddai'r un fath i bawb. Bydd hyblygrwydd y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol a dulliau datrys problemau ehangach i ymateb i seilwaith lleol, capasiti'r gwasanaeth, ac anghenion demograffig - wrth gynnal egwyddorion tegwch gweithdrefnol ac ymarfer sy'n ystyriol o drawma - yn hanfodol. Mae rhagor o fanylion ar gael ym mhapur trafod Gweithgor y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol, sydd ar gael ar gais, gyda Safonau Gwasanaeth y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol wedi'u nodi yn atodiad 4.

Yn unol â nod y Gweithgor i hyrwyddo model aml-asiantaeth cynaliadwy, sy'n ystyriol o drawma, sy'n rhoi cymorth wedi'i deilwra i deuluoedd, yn gwella canlyniadau hirdymor i blant, ac yn lleihau dibyniaeth ar achosion gofal, bydd dau grŵp tasg a gorffen yn cael eu sefydlu i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn:

1. Archwilio sut y gellir gweithredu dull datrys problemau o fewn cyfraith gyhoeddus a systemau presennol.
2. Mapio gwasanaethau yn gynhwysfawr; cydnabod amrywiadau mewn modelau gwasanaeth, unrhyw fylchau a heriau mewn practis a nodi lle na fyddai'r ddarpariaeth bresennol yn gallu cyflawni elfennau craidd model datrys problemau'r Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol.

Comisiynwyd y [Ganolfan Arloesi ym maes Cyfiawnder](#), sefydliad trydydd sector annibynnol a chanolfan arbenigedd gydnabyddedig mewn dulliau llys datrys problemau, i roi cymorth i gyflwyno tri gweithdy ledled Cymru. Cynlluniwyd y gweithdai hyn i hwyluso ymgynghoriad cynnar â rhanddeiliaid ac i ddod â gweithwyr proffesiynol o bob rhan o'r system cyfiawnder teuluol at ei gilydd gyda phartneriaid cymunedol allweddol.

Nod y Gweithdai

Nod y tri gweithdy, wedi'u cysylltu â thri rhanbarth y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Lleol (LFJB), yw:

- Dangos ymrwymiad parhaus i fwrw ymlaen â gwaith Gweithgor Cenedlaethol y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol, gan gynnwys y ddau grŵp gorchwyl a gorffen.
- Dod ag ystod eang o bartneriaid cyfiawnder teuluol a chymunedol at ei gilydd i gefnogi cydweithredu ac ymgysylltu cynnar.
- Rhoi diweddariad ynghylch y rhesymeg dros ddulliau datrys problemau mewn cyfraith gyhoeddus a nodi bylchau mewn gwybodaeth ac ymwybyddiaeth.
- Archwilio safbwyntiau cyfredol, lefelau cefnogaeth, ac unrhyw amheuan.
- Gosod y cyd-destun ar gyfer y ddwy ffrwd waith gorchwyl a gorffen.
- Nodi cyfranogwyr i gefnogi'r gwaith o symud y ffrydiau gwaith hyn yn eu blaenau.
- Cyfrannu at Ddigwyddiad Dysgu Cenedlaethol a gwblhawyd yng Ngwanwyn 2026.

Cwblhawyd y gweithdai ar-lein ym mis Ionawr 2026 gyda dros 60 o weithwyr proffesiynol yn mynychu. Rhoddwyd deunyddiau cefndir allweddol i'r cyfranogwyr ymlaen llaw, gan gynnwys papur trafod Gweithgor y LITCA (FDAC), crynodeb o werthusiad Cascade o gynllun peilot y LITCA (FDAC) yng Nghymru, crynodeb o [adroddiad ICPR Gwella Achosion Gofal](#) a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2026, a [‘Problem-solving Courts: a guide to practice in the United Kingdom’](#) y Ganolfan Arloesi ym maes Cyfiawnder.

Roedd pob gweithdy yn cynnwys trafodaethau grŵp a ddeilliodd ohonynt wedi'u hwyluso gan y Ganolfan Arloesi ym maes Cyfiawnder, Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield ac ymarferwyr gyda phrofiad o ddulliau datrys problemau yn y system cyfiawnder teuluol. Rydym yn ddiolchgar i'r rhai a gyfrannodd eu hamser a'u harbenigedd.

Themâu cyffredinol

Roedd trafodaethau ar draws tri rhanbarth y Byrddau Lleol Cyfiawnder Teuluol yn adlewyrchu cyd-destun lleol ac amrywiaeth mewn ymarfer. Fodd bynnag, daeth set gyson o themâu cenedlaethol i'r amlwg mewn perthynas â gwreiddio dull datrys problemau mewn achosion cyfraith gyhoeddus:

1. Mae yna **hyder cynyddol mewn newid i'r system gyfan** wedi'i gefnogi gan brofiad o weithredu Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn. Ond mae adnabyddiaeth o ddulliau datrys problemau mewn achosion cyfraith gyhoeddus yn parhau i fod yn gyfyngedig. Byddai mwy o ymwybyddiaeth a dysgu a rennir yn cefnogi dealltwriaeth ehangach.
2. Mae **awydd cryf i ddysgu o fodelau sefydledig y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol**, cynllun peilot Cymru (gan gynnwys ei gau) yn ogystal â gweithredu Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn.
3. Mae gwreiddio **dull datrys problemau mewn achosion cyfraith gyhoeddus yn cyd-fynd ag arfer ehangach**, gan gynnwys ymarfer sy'n ystyriol o drawma, gwell cyfathrebu a phrofiadau gwell i deuluoedd ac ymdrechion i leihau achosion gofal rheolaidd.
4. Gwelir bod **prosesau llys cyfredol yn aml yn wrthwynebol** ac anhygyrch, gyda pherthnasoedd proffesiynol anghyson, parhad cyfyngedig, a photensial ar gyfer trawma ychwanegol.
5. **Byddai dull datrys problemau yn ymdrin yn uniongyrchol ag achosion pryder o fewn y system cyfiawnder teuluol** drwy hyrwyddo gweithio perthynol, gwella cyfathrebu (gan gynnwys darpariaeth Gymraeg), cryfhau ymddiriedaeth, sicrhau parhad barnwrol, a rhoi cymorth wedi'i deilwra i deuluoedd.
6. Ceir enghreifftiau presennol o **arfer da ledled Cymru**, sy'n gysylltiedig yn arbennig â gwaith

Born into Care, cymorth cyn achosion, a gwasanaethau eiriolaeth, sy'n adlewyrchu'r egwyddorion sy'n sail i ddulliau datrys problemau. Mae yna werth i adeiladu ar ac integreiddio'r arfer hwn o fewn prosesau llys.

7. **Mae cymorth cynnar a darpariaeth gymunedol yn amrywio** ar draws rhanbarthau, gyda llai o gysondeb yn y gefnogaeth i rai teuluoedd, yn enwedig y rhai sydd â phlant hŷn.
8. Roedd yna bryder am **gynaliadwyedd** darparu cymorth dwys, yn ogystal â sut mae newidiadau cadarnhaol yn cael eu cynnal unwaith y bydd y gefnogaeth yn dod i ben.
9. Mae angen cael **gwell dealltwriaeth** o wasanaethau lleol, llwybrau, seilwaith a bylchau. Mae angen dull hyblyg yn hytrach na dull "un maint i bawb".
10. **Mae cwestiynau yn parhau ynghylch amserlenni, dyrannu adnoddau a llwybrau atgyfeirio.** Mae hyn yn cynnwys sut y gallai model weithredu ar raddfa fwy heb gyfrannu at oedi wrth ategu'r ddarpariaeth bresennol.
11. **Mae capasiti'r gweithlu, pwysau ar systemau ac amrywiadau rhanbarthol o ran cyllid a daearyddiaeth** yn cyflwyno her sylweddol. Cyfeiriwyd at rôl cyflenwi digidol a phartneriaethau cymunedol hefyd.
12. **Mae ymrwymiad traws-sector cryf yn hanfodol.** Bydd gweithio amlasiantaeth effeithiol, yn enwedig ochr yn ochr ag iechyd a thai yn allweddol i lwyddiant. Mae lleihau gweithio ynysig a hyrwyddo canlyniadau a rennir ac atebolrwydd a rennir yn hanfodol.

Ffocws rhanbarthol

A Gellir dod o hyd i grynodedd rhanbarthol manwl o drafodaethau o bob un o ranbarthau'r Bwrdd Lleol Cyfiawnder Troseddol yn Atodiadau 1 i 3. Er bod profiadau a blaenoriaethau yn amrywio, archwiliodd pob rhanbarth y manteision a'r anfanteision posibl o fabwysiadu dull datrys problemau gan gynnwys unrhyw ystyriaethau ymarferol ar gyfer gweithredu.

Un canfyddiad cyson oedd absenoldeb un model unffurf o arfer rhanbarthol. Canfuwyd bod arfer yn amrywio nid yn unig o ranbarth i ranbarth ond hefyd ar draws Awdurdodau Lleol yn yr un rhanbarth. Mae hyn yn atgyfnerthu'r angen am ddull hyblyg, sy'n ymatebol yn lleol.

Yng Ngogledd Cymru, tynnodd trafodaethau sylw at gryfderau presennol gan gynnwys IFSS, cyf-weliadau ysgogol, Cynadledda Grwpiau Teuluol a ffocws ar ymarfer tosturiol, perthynol. Rhoddodd gwaith trawsnewid blaenorol hyder, a chynigiodd fframweithiau posibl, ar gyfer gweithredu dull datrys problemau y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol. Fodd bynnag, lleisiwyd pryderon ynghylch cynaliadwyedd gwasanaethau presennol, cyfyngiadau o ran capasiti ac argaeledd cymorth ehangach.

Ystyriodd Canolbarth a Gorllewin Cymru y modd y mabwysiadwyd Llysoedd sy'n Canolbwytio ar y Plentyn yn ddiweddar yn eu hardal hwy a'r cyfle i ddatblygu ar hyn i hyrwyddo mwy o gysondeb gan gofio bod y rhanbarth hwn eisoes yn addasu i newidiadau eraill yn lleol. Roedd yna ffocws cryf ar waith cadarnhaol Born into Care sy'n digwydd yn y rhanbarth hwn a sut y byddai hyn yn rhyn-gweithio i sicrhau bod gwaith cyn achosion yn cyd-fynd ag unrhyw ddull datrys problemau er mwyn osgoi oedi. Roedd diddordeb mewn ymestyn yr arfer hwn i deuluoedd â phlant hŷn. Roedd yr heriau a nodwyd yn ymwneud â chyllid cynaliadwy, capasiti'r gweithlu ac argaeledd gwasanaethau mewn ardaloedd mwy gwledig.

Yn Ne-ddwyrain Cymru, bu trafodaethau yn ystyried profiad y rhanbarth o gynllun peilot y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol, gyda phwyslais cryf ar gydweithio, newid diwylliant, a gwella profiadau teuluoedd o'r llys. Tynnodd cyfranogwyr sylw hefyd at gryfderau presennol yn eu gwaith Eiriolaeth Rhieni, Cynadleddau Grwpiau Teuluol a phrosiectau Born into Care. Roedd y blaenoriaethau yn cynnwys sicrhau cysylltiad â gwaith cyn yr achos, osgoi dyblygu a chydabod pwysau ar y gweithlu. Tynnwyd sylw hefyd at bwysigrwydd ymgorffori llais rhieni, plant a rhwydweithiau teuluol ehangach.

Argymhellion cyffredinol a'r camau nesaf

Ar draws y tri rhanbarth, mae awydd clir i archwilio a datblygu dull datrys problemau sy'n ystyriol o drawma y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol ymhellach, o fewn achosion cyfraith gyhoeddus yng Nghymru. Wrth gydnabod amrywiad rhanbarthol, pwysau ar y system a'r angen i ddatblygu ar arferion da presennol, nododd y gweithdai set o argymhellion a rennir i lywio'r camau nesaf.

1. Bwrw ymlaen â'r ddau grŵp gorchwyl a gorffen:

- Sicrhau bod y grwpiau yn cael eu goruchwyllo a'u cydlynu'n glir.
- Datblygu ar yr hyn a ddysgwyd o'r gweithdai a chysylltu rhanddeiliaid allweddol i gefnogi'r dilyniant hwn.

2. Ymgymryd â mapio cynhwysfawr:

- Nodi gwasanaethau presennol, eu hargaeledd a'u llwybrau, gan gynnwys cymorth cyffredinol, wedi'i dargedu neu arbenigol.
- Nodi pa fylchau sydd mewn gwasanaethau ar lefelau lleol a rhanbarthol.
- Dysgu am bartneriaethau aml-asiantaeth sefydledig ac effeithiol.
- Cynyddu dealltwriaeth o seilwaith lleol, a rhwystrau daearyddol.
- Archwilio cyfleoedd i gysylltu neu ail-bwrpasu adnoddau presennol gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer cyd-leoli lle bo hynny'n briodol.

3. Cryfhau ymrwymiad aml-asiantaeth

- Sicrhau cyfranogiad gweithredol iechyd, addysg, tai, gwasanaethau oedolion, yr heddlu a phartneriaid cymunedol yn y gwaith hwn.
- Creu gweledigaeth a rennir gyda chefnogaeth gan uwch arweinwyr ac ymgysylltiad barnwrol.
- Cydnabod y pwysau ar y gweithlu a chyfyngiadau o ran capasiti sy'n effeithio ar asiantaethau.
- Nodi a dechrau gweithio gyda rhanbarthau sydd â diddordeb ac yn barod i gefnogi datblygiad realistig, rheoladwy sy'n gallu tyfu yn unol â'r anghenion.

4. Dysgu o fentrau blaenorol

- Tynnu ar yr hyn a ddysgwyd o fodelau'r Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol, IFSS, cynllun peilot LITCA (FDAC) Cymru a Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn.
- Cefnogi cyfleoedd ar gyfer dysgu a rennir, cysgodi ac ymgysylltu â gwasanaethau sefydledig a theuluoedd sydd wedi profi'r model.
- Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o effaith y buddion tymor byr a hirdymor i deuluoedd ac ymarferwyr, ac ystyried pob cyswllt fel cyfle i gefnogi, ymyrryd a newid.
- Rhoi canllawiau pellach ar sut y gall pob teulu deimlo manteision dull datrys problemau; effaith dull tosturiol, ymatebol i drawma, tryloyw a hygyrch gyda chyfleoedd ar gyfer adolygu.

5. Lleisiau profiad bywyd

- Ymgysylltu'n ystyrlon â rhieni, plant ac aelodau o'r teulu sydd â phrofiad bywyd i fod yn sail i ddylunio a chyflwyno.
- Sicrhau bod anghenion y Gymraeg yn cael eu hystyried yn llawn.

- Ochr yn ochr â phrofiad teuluol, sicrhau bod llais ymarferwyr hefyd yn siapio'r gwaith.

6. Cyllid a Chynaliadwyedd

- Datblygu ymagwedd glir at gyllid cynaliadwy hirdymor, gan gydnabod bod cyllid aml-flwyddyn yn cefnogi sefydlogrwydd ac ymgysylltu.
- Ystyried y goblygiadau cost ar draws gwahanol fodelau gan gydnabod 'nad yw un maint yn addas i bawb' a bod seilwaith a gwasanaethau a ddarperir yn wahanol ar draws awdurdodau lleol.

7. Cryfhau casglu a defnyddio data

- Nodi data ar lefel gwasanaeth a rhanbarth mewn ymarfer mapio.
- Adeiladu ar gryfderau Cymru wrth gasglu a defnyddio data i fonitro effaith a chynnydd, ochr yn ochr â chefnogi gweithredu a datblygu ac adolygu yn y dyfodol.

8. Cysylltu Cyn-Achosion ac Amserlenni

- Sicrhau bod unrhyw ddull datrys problemau yn ategu gwaith sy'n mynd ymlaen cyn yr achosion.
- Ymdrin ag unrhyw annhegwch wrth roi cymorth cynnar ac ymdrin â bylchau mewn gwasanaeth er mwyn osgoi oedi.
- Nodi meysydd lle mae llai o hyder, neu lai o gymorth ar gael, mewn cyn-achosion.

9. Datblygu'r Gweithlu a Newid Diwylliannol

- Datblygu rhaglen hyfforddi a datblygu ar draws y system gyfan.
- Rhoi cyfleoedd ar gyfer gweithio traws-asiantaeth gan gynnwys cysgodi, sgysiau myfyriol a datblygu ymarfer parhaus sy'n gwreiddio gwerthoedd ynghylch amynedd a thosturi.
- Hyrwyddo diwylliant o welliant parhaus, hyblygrwydd, adolygu a newid.

10. Ymdrin â Chamsyniadau - Mythau i'w Chwalu

- Darparu cyfathrebu clir i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon sy'n ymwneud â diogelwch, cynaliadwyedd, cwmipas a chyd-fynd ag arferion presennol.
- Atgyfnerthu bod dull datrys problemau yn canolbwyntio ar y plentyn, yn aml-asiantaeth ac yn ystyriol o drawma gyda chyfle i gefnogi teuluoedd y tu hwnt i'r rhai lle mae defnydd o gyffuriau ac alcohol gan rieni yn ffactor.

Casgliad

Mae'r gweithdai wedi dangos awydd traws-sector cryf i archwilio sut y gellid ymgorffori dull datrys problemau sy'n ystyriol o drawma'r Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol mewn achosion cyfraith gyhoeddus yng Nghymru. Er bod heriau pwysig yn parhau fel adnoddau, amserlenni, cysondeb a chynaliadwyedd, mae yna gyswllt clir â gwerthoedd Cymru o gydweithio, ymyrraeth gynnar ac ymarfer perthynol.

Tynnodd trafodaethau sylw at gryfder y ddarpariaeth bresennol a'r cyfle i ddod â mwy o gydlyniant, parhad a phartneriaeth aml-asiantaeth i arena'r llys. Wrth symud ymlaen bydd cynnydd yn dibynnu ar fapio cadarn, arweinyddiaeth a rennir, ymgysylltu ystyrion â theuluoedd ac ymarferwyr, ac ymrwymiad i ddysgu o fentrau blaenorol. Gyda datblygiad gofalus a model hyblyg, sy'n ymatebol yn lleol, mae gan Gymru'r cyfle i adeiladu ar ei sylfeini presennol a chymryd cam sylweddol tuag at system cyfiawnder teuluol fwy tosturiol ac effeithiol gyda chanlyniadau gwell i deuluoedd.

Atodiad 1: Ffocws Gogledd Cymru

Meysydd o arfer da a nodwyd i gysylltu â nhw ac adeiladu arnynt

Tynnodd y trafodaethau sylw at ystod o arferion effeithiol ledled Gogledd Cymru, gan gynnwys:

- Defnydd da o **Gynadleddau/Cyfarfodydd Grwpiau Teuluol**, gan gefnogi canlyniadau cadarnhaol yn y cam cyn yr achos ac o fewn trefniadau'r Cynllun Gofal a Chymorth.
- Dysgu o'r **Rhaglen Trawsnewid a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol**, gyda photensial i wreiddio arfer cyson ar draws y rhanbarth.
- Cyfleoedd i **gryfhau gweithio mewn partneriaeth gyda thimau'r Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd**, gan gynnwys cysylltiad agosach â darpariaeth therapiwtig.
- Cymorth arbenigol sydd yn **Wrecsam** ar hyn o bryd lle nodwyd bod gwahanu'r gwasanaeth yn ffisegol oddi wrth yr Awdurdod Lleol yn fuddiol wrth adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltiad.
- Gwaith parhaus i wreiddio **sgyrsiau cydweithredol** ac ymarfer seiliedig ar berthynas.
- Defnydd sefydledig o **hyfforddiant Cyfweld Ysgogiadol (MI)**, gyda gweithlu hyfforddedig.
- Cydweithredu rhanbarthol o ran **trais yn erbyn menywod a merched a darparu cymorth cam-drin domestig**.
- Nodwyd **ymchwil a gwaith Born into Care**, gan gynnwys dysgu am symudiadau ailadroddus, gan atgyfnerthu pwysigrwydd ymyrraeth gynnar.
- Cydnabwyd manteision **cymorth wedi achosion** yn ôl yr angen i gynnal canlyniadau cadarnhaol.
- Enghreifftiau o **dimau therapiwtig mewnol sefydledig** yn rhoi cymorth arbenigol integredig o fewn strwythurau gwasanaeth presennol.

Gwerth cymryd dull datrys problemau a sut y gall gefnogi arferion cyfredol yn lleol:

Nododd ymarferwyr nifer o fanteision o weithredu dull datrys problemau:

- **Lleihau agwedd wrthwynebol yr achosion:** Symud tŷn y trafodion oddi wrth wrthdaro a thuag at ddeialog adeiladol sy'n fwy seiliedig ar gryfder.
- **Gwella iaith ac ymgysylltu â theuluoedd yn y llys:** Hyrwyddo cyfathrebu cliriach, mwy hygyrch a chynyddu cyfranogiad teuluol.
- **Chwalu rhwystrau rhwng gwasanaethau a theuluoedd:** Helpu i symud i ffwrdd o ddiwylliant "ni a nhw" a meithrin ymddiriedaeth, sy'n arbennig o bwysig wrth weithio gyda theuluoedd sydd â phrofiadau negyddol blaenorol o ymwneud â gwasanaeth.
- **Sefydlu ethos 'llys gwranddo':** Cefnogi dull mwy empathetig, sy'n ystyriol o drawma sy'n sicrhau bod defnyddwyr y llys yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a bod y gwaith yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn ffocysu ar y teulu.
- **Ymdrin â phryderon gofal rheolaidd:** Ymateb yn rhagweithiol, mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma i leihau symudiadau ailadroddus ac achosion gofal rheolaidd.
- **Cryfhau cydweithrediad aml-asiantaeth:** Annog gweithio mwy integredig ar draws sefydliadau a thimau, gan sicrhau cynllunio ac ymyriadau cydgyssylltiedig.
- **Cefnogi ymarfer holistaidd:** Symud y tu hwnt i ymatebion i un mater i edrych ar y cyd-destun teuluol ehangach.
- **Hyrwyddo cysondeb:** Defnyddio dull strwythuredig i sicrhau gwell cysondeb wrth weithio gyda theuluoedd.
- **Ymateb i anghenion cymhleth:** Cryfhau cefnogaeth i deuluoedd ag anghenion lluosog a chymhleth trwy well cydweithio.
- **Gwella arferion ailuno:** Cefnogi cynllunio gofal mwy cadarn, cysylltiedig i wella canlyniadau hirdymor.

- **Ymdrin ag esgeulustod cronig:** Cefnogi ymgysylltu mwy effeithiol a newid hirdymor.

Ystyriaethau a chwestiynau pwysig:

Pryderon allweddol a meysydd sydd angen eglurder pellach:

- **Tegwch o ran mynediad:** Mae angen llwybrau atgyfeirio clir a meini prawf cymhwysedd a gymhwysir yn gyson i osgoi unrhyw ganfyddiadau o anghydraddoldeb.
- **Amserlenni statudol 26 wythnos:** Nodwyd pryderon ynghylch cyflawni newid ystyrion o fewn amserlenni statudol, a bod angen hyblygrwydd.
- **Pwysau o ran dyrannu adnoddau a chyllid:** Dylai unrhyw ddull newydd ategu dulliau a gwasanaethau presennol yn hytrach na chystadlu â nhw.
- **Hygyrchedd gwasanaethau:** Gallai problemau teithio a rhwystrau daearyddol effeithio ar ymgysylltu â gwasanaethau cymorth.
- **Argaeledd cymorth arbenigol:** Yn enwedig o amgylch mynediad at wasanaethau gofal iechyd a cham-drin domestig.
- **Prydlondeb y gefnogaeth:** Gallai oedi wrth gael mynediad at gymorth gan gynnwys ar ôl achosion effeithio ar ganlyniadau a thanseilio cynnydd.
- **Capasiti'r gweithlu:** Heriau recriwtio a chadw o fewn gofal cymdeithasol a gallu cyffredinol i sicrhau bod arferion cyson yn cael eu cyflwyno.
- **Rheoli newid:** Yr angen am amser, hyfforddiant a chefnogaeth i wreiddio dulliau newydd.
- **Pwysau ar y system:** Risg o ddisgwyliad a phwysau ychwanegol ar wasanaethau sydd eisoes wedi'u hystyngi.
- **Cymhlethdod achosion:** Yr angen am fwy o eglurder ynghylch sut y gall dull datrys problemau gefnogi teuluoedd ag anghenion cymhleth.

Beth fyddai'n gymorth i weithredu:

Argymhellodd y cyfranogwyr y canlynol i gefnogi'r camau nesaf:

- **Mapio gwasanaethau:** Trosolwg clir o wasanaethau, llwybrau a bylchau presennol ar draws y rhanbarth i osgoi dyblygu a llywio cynllunio.
- **Model hyblyg:** Model y gellir ei addasu i'r cyd-destun lleol, y capasiti a'r angen yn hytrach na dull "un maint i bawb".
- **Ymgysylltu wedi'i dargedu:** Gweithio gyda meysydd sy'n agored i fabwysiadu'r model yn gynnar.
- **Mannau diogel ar gyfer dysgu:** Cyfleoedd i fyfyrion, profi a datblygu ymarfer.
- **Datblygu'r gweithlu:** Strategaeth datblygu'r gweithlu a chynllun hyfforddi clir ar draws y rhanbarth.
- **Cyfranogiad aml-asiantaeth:** Ymgysylltu parhaus gan iechyd, gwasanaethau oedolion ac asiantaethau partner allweddol eraill.
- **Profiad bywyd:** Cyfranogiad ystyrion gan deuluoedd yn y broses o ddylunio a chyflawni.
- **Cymorth gan yr arweinyddiaeth:** Angen cymeradwyaeth lefel uwch i alluogi newid.
- **Cydnabod pwysau ar y system:** Disgwyliadau realistig o fewn cyfyngiadau'r adnoddau presennol.
- **Ymrwymiad a rennir:** Sefydlu ymrwymiad neu addewid traws-sector, meithrin rhannu perchnogaeth, atebolrwydd ar y cyd a chysondeb ar draws y system.
- **Adeiladu ar fomentwm:** Manteisio ar bartneriaethau rhanbarthol a chydweithredol sy'n bodoli'n barod.

Atodiad 2: Ffocws Canolbarth a Gorllewin Cymru

Meysydd o arfer da a nodwyd i gysylltu â nhw ac adeiladu arnynt

Tynnodd trafodaethau sylw at ystod o gryfderau sefydledig a meysydd arfer da a ddylai lywio datblygiad gwasanaethau yn y dyfodol:

- Blaenlwytho gwasanaethau yn effeithiol ac ymyrraeth gynnar sy'n arwain at **lai o achosion yn symud ymlaen i'r Llys**.
- Asesiad cynharach o **ofalwyr amgen** a fydd yn cynyddu cyfleoedd i blant aros o fewn rhwydwaith eu teulu ehangach os oes angen achos llys.
- Modelau ymarfer sy'n cefnogi **sgyrsiau therapiwtig** gyda theuluoedd.
- Defnydd cynyddol o gynlluniau teuluol a chynlluniau wedi'u hysgrifennu yng **ngeiriau'r plentyn** gan arwain at well ymgysylltiad ac ymdeimlad o berchnogaeth a rennir.
- Ystyrir bod gwaith **Born into Care** cryf ac effeithiol drwy wasanaethau yn Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot fel Jig-so, cydleoli a gweithio mewn partneriaeth gydag iechyd yn ganolog i'r llwyddiant.
- Datblygiad parhaus o **Eiriolaeth Rhieni**.

Gwerth cymryd dull datrys problemau a sut y gall gefnogi arferion cyfredol yn lleol

Nododd ymarferwyr y manteision posibl canlynol:

- **Gwreiddio ymarfer teulu cyfan:** Cryfhau dull systematig o ganolbwyntio ar y cyd-destun teuluol ehangach.
- **Gwella rhannu gwybodaeth ymysg asiantaethau lluosog:** Gwella cyfathrebu a lleihau gweithio ynysig.
- **Cynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael:** Cefnogi gwell cyswllt rhwng achosion Llys a'r gwasanaethau a ddarperir.
- **Gwella profiad ac iaith y llys:** Ymdrin â'r diffyg cysylltiad rhwng ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau a'r prosesau ffurfiol, cyfreithiol a all fod yn llethol i deuluoedd.
- **Egluro disgwyliadau i rieni:** Cefnogi gwell dealltwriaeth o brosesau cyfarfod Amlinelliad o'r Gyfraith Gyhoeddus (PLO).
- **Ymestyn ymarfer effeithiol Born into Care:** Gan adeiladu ar y gwaith da presennol yn y maes hwn gyda gwasanaethau fel Jig-so a Reflect i leihau symudiadau ailadroddus, ystyried y posibilrwydd o ymestyn y dysgu a'r gefnogaeth hon i deuluoedd â phlant hŷn.
- **Gwella ymatebion i ddefnyddio sylweddau:** Gwell dealltwriaeth o'r rhyngweithio rhwng camddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig ac iechyd meddwl.
- **Hyrwyddo ymarfer sy'n seiliedig ar seicoleg:** Cefnogi asesiad dyfnach o faterion sylfaenol a symud y tu hwnt i rôl gydlyn.
- **Cefnogi lles y gweithlu:** Byddai lleihau natur wrthwynebol yr achosion yn gwella profiad defnyddiwr y llys i weithwyr proffesiynol, gan wella profiad proffesiynol a chadw staff.
- **Cryfhau ymgysylltiad barnwrol:** Mwy o gysondeb mewn ymgysylltu perthnasol ar draws y farnwriaeth i leihau canfyddiadau o ddeinamig "ni a nhw" ym mhroses yr achosion gofal.
- **Ail-greu rôl yr Awdurdod Lleol:** Cefnogi newid o "wneud rhywbeth i" deuluoedd i "weithio gyda" nhw.
- **Cryfhau partneriaethau:** Adeiladu ar weithio amlasiantaeth gwell, gan gynnwys gyda'r Heddlu a rhannu dealltwriaeth o rolau.
- **Cefnogi ymgysylltu personol:** Galluogi dull wedi'i deilwra, sy'n seiliedig ar gryfderau ar gyfer teuluoedd.
- **Darparu sefydlogi dwys:** Sicrhau mynediad at gymorth strwythuredig, dwys i hyrwyddo newid ystyrion.

Ystyriaethau a chwestiynau pwysig

Pryderon allweddol a meysydd sydd angen eglurder pellach:

- **Amseriad yr achosion:** Tensiynau ynghylch cydbwysio achosion lle mae gwaith helaeth cyn yr achos wedi cael ei wneud ac mae'r ALI wedi teimlo ei fod yn cael ei feirniadu am oedi wrth wneud cais i'r Llys.
- **Gwerth ychwanegol:** Yr angen i ddeall sut y gall llys datrys problemau wella neu fod yn wahanol i'r arfer presennol. Roedd rhai cyfranogwyr (nid pob un) yn teimlo bod y Llysoedd eisoes yn gweithredu mewn modd empathig, oedd yn canolbwyntio ar ddatrys problemau.
- **Effaith ar y cyfnod cyn yr achos:** Cwestiynau ynghylch pa fudd ychwanegol y byddai'r model yn ei gael gydag achosion oedd eisoes wedi cael cefnogaeth helaeth cyn yr achos.
- **Trothwyon:** Pwyslais cryf ar greu achos dim ond pan fo hynny'n hollol angenrheidiol, sut y bydd dull datrys problemau yn cyd-fynd â hyn.
- **Amserlen 26 wythnos:** A yw'r amserlen statudol 26 wythnos yn rhoi digon o gyfle ar gyfer newid cynaliadwy?
- **Anghysondeb mewn cyfarfodydd cyn-achosion:** Gall amrywioldeb mewn ymarferion effeithio ar sut mae model datrys problemau yn gweithredu a'r graddau y mae'n ychwanegu gwerth.
- **Risg o oedi:** Eglurder ynghylch sut y gallai gwrandawiadau adolygu ychwanegol achosi oedi mewn achosion yn anfwriadol.
- **Goblygiadau o ran adnoddau:** Cyllid, capasiti gweithlu, argaeledd barnwrol (yn enwedig mewn ardaloedd gwledig), a'r galw am wasanaethau eiriolaeth a chymorth.
- **Meini prawf atgyfeirio:** Pwysigrwydd cael meini prawf cymhwysedd clir.
- **Rhwystrau daearyddol:** Heriau teithio a mynediad mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig pan fo angen ymgysylltu mwy dwys.

Beth fyddai'n helpu gweithredu

Nododd y cyfranogwyr y blaenoriaethau canlynol:

- **Cynnwys tai:** Nodwyd bod cynnwys tai yn gynnar a pharhaus yn angenrheidiol i gefnogi canlyniadau tymor hwy.
- **Capasiti Cafcass Cymru:** Cydnabod pwysau presennol ynghyd ag ymrwymiad i wella canlyniadau.
- **Ymdrin ag amrywiaeth ddaearyddol:** Archwilio sut y gallai gwasanaethau gyd-leoli yn debyg i Jig-so mewn ardaloedd llai dwys eu poblogaeth.
- **Defnydd o ddata:** Cydnabwyd bod Cymru yn gryf yn ei defnydd o ddata, gan ddatblygu ar hyn i fod yn sail i ddylunio, gweithredu a monitro.
- **Datblygu ar Born into Care:** Fel y cyfeirir ato uchod, defnyddio'r hyn a ddysgwyd o Jig-so i fod yn sail i waith ehangach yn y rhanbarth.
- **Ymestyn ymarfer effeithiol y Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS):** Ymdrin â materion cysondeb wrth gyflwyno a sicrhau argaeledd y Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd trwy wella gweithio integredig, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig.
- **Cryfhau partneriaethau:** Datblygu ar weithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill fel yr Heddlu a gwasanaethau cymunedol
- **Rhannu ymarfer:** Cynyddu cyfleoedd i ddysgu o fodelau sefydledig y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol a deall manteision ehangach y tu hwnt i barhad barnwrol.

Atodiad 3: Ffocws De-ddwyrain

Meysydd o arfer da a nodwyd i gysylltu â nhw ac adeiladu arnynt

Nododd y trafodaethau sylfaen gadarn o arfer da sy'n digwydd ledled De-ddwyrain Cymru:

- **Eiriolaeth rhieni ac ymarfer cyfranogol sefydledig** gyda ffocws clir ar gynnwys lleisiau teuluoedd wrth wneud penderfyniadau.
- **Diwylliant cynyddol o gydweithredu** gan gynnwys gweithio ochr yn ochr â theuluoedd i ganolbwyntio ar liniaru risg.
- **Cysylltu â newid diwylliant ehangach** i wella profiadau teuluoedd a gweithwyr proffesiynol.
- **Buddsoddiad sylweddol mewn cymorth ac atal cynnar** gan gynnwys gwaith cryf cyn achosion ac ymyrraeth gynnar a mentrau fel Baby and Me a Reflect.
- Mae **ymwybyddiaeth farnwrol o arfer gwrthwynebol** yn rhoi lle i fyfrio a pharodrwydd i dderbyn dulliau newydd.
- Cynnydd mewn **gwreiddio ymarfer sy'n ystyriol o drawma a chynhwysiant**.
- **Mwy o hyder a grymuso** ar ôl gwreiddio **Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn**, gan gefnogi ymgysylltu a grymuso teuluoedd.
- **Defnydd cynnar a datblygiad Cynadleddau i Grwpiau Teuluol (FGCs)**: Cydnabyddir bod y defnydd rhagweithiol o Gynadleddau i Grwpiau Teuluol (FGCs) yn arfer effeithiol. Gallai dysgu parhaus am yr hyn sy'n gwella effeithiolrwydd Cynadleddau i Grwpiau Teuluol ar gyfer gwahanol deuluoedd gynnig mewnwelediad gwerthfawr i lywio dull datrys problemau.

Gwerth cymryd dull datrys problemau a sut y gall gefnogi arferion cyfredol yn lleol

Nododd ymarferwyr y manteision posibl canlynol:

- **Cysylltu modelau llys ac ymarfer lleol**: Creu mwy o gydraddoldeb gydag ymarfer perthynol a dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau mewn achosion llys i gysylltu ag arfer lleol.
- **Gwell tryloywder a dealltwriaeth**: Cefnogi cyfathrebu cliriach ynghylch disgwyliadau, dewisiadau a chanlyniadau.
- **Gwneud y mwyaf o'r gefnogaeth o fewn achosion**: Rhoi gwell cymorth ar gyfnod tyngedfennol, yn enwedig i deuluoedd nad ydynt efallai wedi manteisio'n llawn ar gymorth cyn yr achos.
- **Cryfhau parhad cefnogaeth**: Trwy sicrhau bod cymorth ar gael ar ôl yr achos, gall teuluoedd barhau i gael eu cefnogi ym mhob cam.
- **Cyflawni effaith hirdymor**: Cefnogi gostyngiad mewn achosion rheolaidd a dileu gorfod symud plant droeon, a fydd yn ei dro yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol yn y tymor hwy.
- **Cryfhau cydweithredu amlasiantaeth ac atebolrwydd a rennir**: Gwell gweithio mewn partneriaeth, cyfrifoldeb ar y cyd a dull cydweithredol go iawn o gefnogi teuluoedd.
- **Newid y system gyfan**: Symud o bocedi o arfer da i ddiwygio cydgysylltiedig ar draws systemau i gyflawni arfer gorau yn gyson.
- **Lleihau symud plant yn rheolaidd / eu symud ar ôl genedigaeth**: Datblygu ar y prosiectau Born into Care, Reflect, Project Unity a Baby and Me i dorri'r cylch o symud plant ar ôl eu geni.
- **Ymateb i gymhlethdod hirdymor**: Cefnogi ymyrraeth gynharach, seicolegol ar gyfer plant a theuluoedd ag anghenion cymhleth.
- **Cefnogi prosesau barnwrol sy'n ystyriol o drawma**: Gwella dealltwriaeth a gwneud y broses yn llai gwrthwynebol ac yn fwy empathig i deuluoedd ac ymarferwyr.
- **Gwella cyfranogiad a llais**: Sicrhau bod lleisiau teuluoedd yn cael eu clywed trwy gydol y broses, bod yr achosion yn canolbwyntio ar blant a bod rhieni a gofawyr yn teimlo eu bod wedi'u grymuso.
- **Lleihau diwylliant gwrthwynebol**: Hyrwyddo sgysiau mwy adeiladol ac ymgysylltu sy'n canolbwyntio ar atebion.

- **Gwella profiad a chadw'r gweithlu:** Cefnogi cadw a lles ymarferwyr trwy ddull mwy empathig.
- **Rhoi cyfle hanfodol ar gyfer newid yn y cam olaf:** Creu lle ar gyfer cynnydd lle nad yw teuluoedd wedi llwyddo i wneud y newid yn ystod y cyfnod cyn yr achos.
- **Gosod llwybrau i newid:** Gall teuluoedd deimlo wedi eu cloi i mewn i drywydd arbennig pan gyhoeddir achosion gofal, ac mae angen nodi'r cysylltiad clir rhwng gwneud cynnydd a gwella canlyniadau.
- **Adeiladu ar gryfderau presennol:** Mae'r dull yn cyd-fynd â'r arfer cyfredol sy'n seiliedig ar gryfderau a ddefnyddir mewn cyn-achosion. Mae ehangu i achosion llys yn gofyn am gydraddoldeb yn y ffordd y mae teuluoedd yn cael eu cefnogi cyn, yn ystod ac ar ôl yr achos.
- **Creu effeithiau pellgyrhaeddol ar draws ymarfer ehangach:** Gallai dysgu o ddulliau datrys problemau (gan gynnwys ymarfer barnwrol ac arddulliau cyfathrebu) ymestyn y tu hwnt i lysoedd unigol, gan ddylanwadu ar gyfiawnder teuluol ac arferion diogelu ehangach ar draws y rhanbarth.
- **Dysgu o Adolygiadau Ymarfer Plant:** Mae adolygiadau yn aml yn nodi dealltwriaeth broffesiynol gyfyngedig o brosesau'r llys, gan gyfrannu at densiwn a diwylliant o feio. Trwy ddealltwriaeth a rennir gellir lleihau camddealltwriaeth a diwylliant o feio.

Ystyriaethau a chwestiynau pwysig

Pryderon allweddol a meysydd sydd angen eglurder pellach:

- **Cymhlethdod cynyddol a phwysau ar y system:** Mae lefelau cynyddol o angen yn cael eu cydbwysu â chyfyngiadau ar adnoddau ar hyn o bryd. Achosion sy'n cyrraedd achos gofal yn y llys yn aml yw'r rhai mwyaf cymhleth a rhaid ystyried sut y byddai newid yn effeithio ar system sydd eisoes wedi'i hymestyn. Mae pwysau amlwg ar iechyd, addysg, tai a gwasanaethau trydydd sector yn codi pryderon ynghylch a ellir cynnal capasiti aml-asiantaeth. Ystyriwyd a all newid diwylliannol ddigwydd heb gyllid ychwanegol a sut y gallai fod cyfleoedd i ailddefnyddio adnoddau presennol, ond mae hyn yn gofyn am gynllunio ac ymrwymiad gan bawb sy'n ymwneud â gwaith ar draws y sectorau.
- **Ymyrraeth ac Atal Cynnar:** Crybwyllwyd pwysigrwydd cefnogaeth gynnar, gyda nodi bod hyn yn holl bwysig o ran lleihau nifer y teuluoedd sy'n mynd i mewn i gyn-achosion ac achosion. Awgrymwyd buddsoddiad pellach yn y cymorth hwn ynghyd â gwaith ynghylch gwella'r broses cyn yr achos i deuluoedd.
- **Amserlenni ac Oedi:** Sicrhau bod unrhyw ddull newydd yn ategu systemau a strwythurau sy'n bodoli'n barod ac nad yw'n achosi oedi diangen i deuluoedd. Byddai deall sut mae'r Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn cydgysylltu ag amserlenni presennol yn ddefnyddiol. Dangosodd rhywfaint o adborth a dderbyniwyd fod AauLI yn teimlo eu bod yn cael eu beirniadu am dreulio gormod o amser mewn cyn-achosion tra bo eraill yn teimlo pwysau am beidio â gweithio gyda theuluoedd mewn mwy o ddyfnder y tu allan i'r achosion.
- **Gweithio a Pharhad Aml-Asiantaeth:** Heriau wrth gynnal gwaith aml-asiantaeth da ar draws pob cam o'r gwaith o gefnogi teulu. Yr adborth cyfredol yw y gall y gwaith aml-asiantaeth da yn ystod gweithdrefnau amddiffyn plant leihau yn y cyfnod cyn-achosion a lleihau eto yn ystod achosion gofal.
- **Cysondeb gweithredu:** Teimlid bod gweithredu'n gyson ar draws llysoedd ac awdurdodau lleol yn her a byddai angen arweinyddiaeth ac arweiniad cydgysylltiedig i wneud unrhyw newidiadau. Er nad oedd dull "un maint i bawb" yn cael ei ystyried yn briodol, roedd rhai pryderon ynghylch y gwahaniaethau mewn prosesau rheoli risg awdurdodau lleol a dulliau barnwrol.
- **Diwylliant y Llys ac Ymarfer Proffesiynol:** Graddfa'r newid diwylliannol y byddai ei angen i symud i ffwrdd oddi wrth brosesau gwrthwynebol.
- **Addasrwydd a Chwmpas Dull Datrys Problemau:** Eglurder ar ba deuluoedd fyddai'n elwa fwyaf wrth gydnabod y gallai'r dull hwn gael ei gymhwyso'n ehangach.
- **Rhwydweithiau Teuluol a Chyfranogiad:** Ehangu'r defnydd o gyfarfodydd rhwydwaith teuluol / Cynadleda Grwpiau Teuluol i hyrwyddo cyfranogiad teuluol ehangach a chefnogi rhwydweithiau cymorth cymdeithasol cadarnhaol.
- **Hyfforddiant a Datblygu'r Gweithlu:** Graddfa hyfforddiant a datblygu traws-system, gan gynnwys

cyfranogiad barnwrol.

Beth fyddai'n helpu gweithredu

Nododd y cyfranogwyr y blaenoriaethau canlynol:

- **Dysgu o Fentrau Blaenorol ac Ymarfer Presennol:** Datblygu ar weithredu Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn yng Nghymru a'r dysgu o gynllun peilot y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol i ddeall yr heriau ac archwilio atebion lleol.
- **Cynyddu ymwybyddiaeth o'r Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol:** Cryfhau dealltwriaeth o'r model hwn, gan gynnwys ei allu i addasu a'i natur o fod yn canolbwyntio ar y plentyn.
- **Cynllunio Ariannol a Chynaliadwyedd:** Datblygu dull cyllido clir, hirdymor, aml-flwyddyn lle bo hynny'n bosibl, gan gynnwys sut rydym yn defnyddio adnoddau presennol.
- **Datblygu'r gweithlu:** Sefydlu cynllun hyfforddi strwythuredig sy'n rhoi cyfleoedd ar gyfer myfyrio, cysgodi ac arsylwi.
- **Defnyddio profiad bywyd:** Gwreiddio llais teuluoedd trwy gydol y dylunio, cyflwyno a gwerthuso a rhoi cyfleoedd clir ar gyfer adborth gan ddefnyddwyr y llys.
- **Mapio gwasanaethau:** Gwell dealltwriaeth o'r ddarpariaeth bresennol, y seilwaith a lle gallai fod bylchau yn y gwasanaethau a gynigir.
- **Model cyflenwi hyblyg:** Derbyn nad yw dull un maint i bawb yn ateb, a bod angen hyblygrwydd a dealltwriaeth o'r cyd-destun lleol i gael model cyflawni llwyddiannus.
- **Sicrhau ymrwymiad aml-asiantaeth cryf:** Sicrhau cyfranogiad gweithredol gan bartneriaid iechyd, addysg, tai a chymunedol. Gyda chyfleoedd cyson ar gyfer sgwrs ac adolygiad aml-asiantaeth.
- **Arweinyddiaeth strategol:** Datblygu gweledigaeth a rennir i ddylanwadu ar newid o'r brig i lawr, gyda chefnogaeth arweinyddiaeth ac atebolrwydd cryf.
- **Cysylltu systemau cyfiawnder:** Ystyried y rhyngweithio rhwng cyfiawnder teuluol a chyfiawnder troseddol a deall amserlenni gwahanol a sut y gall hyn effeithio ar achosion.

Atodiad 4: Safonau Gwasanaeth y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol (FDAC)

These Mae'r Safonau Gwasanaeth hyn yn ceisio disgrifio elfennau allweddol gwasanaeth y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol sy'n cadw'n ffyddlon at fodel y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol a werthuswyd. Mae'r Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn dilyn egwyddorion allweddol datrys problemau; mae'n galluogi'r llys yn weithredol i ddod yn asiant newid, tegwch gweithdrefnol, wedi'i ategu gan ymarfer ac ymwybyddiaeth sy'n ystyriol o drawma, wedi'i deilwra i anghenion y rhai sy'n cael mynediad ato, tîm neu rwydwaith amlddisgyblaethol ac sy'n cydnabod bod teuluoedd yn arbenigwyr yn eu bywydau eu hunain.

Safon 1	Mae'r Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn llys teulu datrys problemau therapiwtig gyda barnwyr wedi'u hyfforddi'n arbennig a thîm asesu ac ymyrraeth annibynnol, amlddisgyblaethol. Disgwylir i'r holl staff ymgymryd â Hyfforddiant Sefydlu y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol a ddylai hefyd fod yn agored i sefydliadau partner a rhanddeiliaid allweddol yn y rhanbarth i sicrhau dull cydlynol a datblygu gweledi-gaeth a rennir.
Safon 2	Mae llwybr atgyfeirio clir i'r Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol.
Safon 3	Mae rhieni yn gallu gwneud dewis gwybodus ynghylch derbyn cynnig y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol ai peidio. Bydd pob rhiant sy'n dewis gweithio gyda'r Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn cael cynnig 'treial ar gyfer newid'.
Safon 4	Mae gwaith asesu ac ymyrraeth tîm arbenigol y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn dechrau'n brydlon ac yn mynd rhagddo heb oedi ac yn dilyn amserlen adrodd y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol a gwrandawriad llys. Mae'r llinell amser hon yn cadw at yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus.
Safon 5	Mai'r cynlluniau ar gyfer plant yn cael eu hadolygu yn ôl yr angen, wrth barhau i fod yn ymwybodol o'r amserlenni sy'n ofynnol gan (a) y gyfraith a'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, a (b) pwysigrwydd ymateb i anghenion plant mewn modd amserol.
Safon 6	Unwaith y bydd gan Gynllun Ymyrraeth y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol awdurdod y llys, mae'r 'treial ar gyfer newid' yn dechrau, ac mae gan rieni a gweithwyr proffesiynol dasgau clir i'w cyflawni ac amserlen i gadw ati.
Safon 7	Mae gwaith y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn gydweithredol – mae cyfathrebu rheolaidd rhwng y barnwr a'r tîm arbenigol, ac mae'r ddau yn gweithio'n agos gyda rhieni, yr awdurdod lleol ac eraill sy'n ymwneud â'r plant a'u teuluoedd.
Safon 8	Mae rhieni yn cael cyfle i gael cefnogaeth gan fentor rhieni lle bo hynny ar gael. Cydnabyddir nad yw pob gwasanaeth yn gallu cynnig y ddarpariaeth hon. Ar hyn o bryd argymhellir bod mynediad at gymorth cydfuddiannol/cymorth adferol gan ddilyn profiad bywyd yn cael ei gynnwys yn y cynllun ymyrraeth.
Safon 9	Mae'r achos yn y llys, gan gynnwys defnyddio gwrandawiadau gan rai nad ydynt yn gyfreithiwr, yn cydnabod rôl y barnwr fel catalydd ar gyfer newid, gan feithrin perthynas gadarnhaol â rhieni a rhoi llais i deuluoedd yn yr achosion. (Mae hefyd yn bwysig nodi bod hyn yn cynnwys sicrhau bod profiadau plant yn parhau i fod yn ganolog i wneud penderfyniadau wrth sicrhau bod yr achosion yn rhoi mwy o dryloywder, cydlyniad a dealltwriaeth o'r prosesau).
Safon 10	Mai tîm arbenigol y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn defnyddio offer casglu data cenedlaethol i fesur iechyd a lles pob plentyn a rhiant yn ystod eu hamser yn y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol, gyda'r bwriad o ddeall effaith y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol ar deuluoedd ac amlygu meysydd posibl ar gyfer gwella a datblygu gwasanaethau.

Rydym yn galw'r rhain yn Safonau Gwasanaeth y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol oherwydd, gyda'i gilydd, maent yn crynhoi ein disgwyliadau ynghylch (a) darpariaeth ac ethos gwasanaeth y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol a (b) beth fydd gwasanaeth sy'n cael ei ddatblygu yn gweithio tuag ato. Er mwyn cadw at hyn, disgwylir i holl Dimau'r Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol ac aelodau staff fod wedi cwblhau Hyfforddiant Sefydlu amllddisgyblaethol y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol, parhau i fod yn ymrwymedig i ddatblygu a dysgu ymarfer parhaus, cefnogi casglu data a sicrhau bod dolenni adborth agored a deialog yn parhau gyda theuluoedd, partneriaid cymunedol a rhanddeiliaid.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Wedi'i ysgrifennu gan:

Sophie Carter, Pennaeth Ymarfer Cyfiawnder Teulu

Cydnabyddiaethau

Hoffai Canolfan Arloesi Cyfiawnder ddiolch i gadeiryddion y Byrddau Cyfiawnder Teulu Lleol yng Nghymru am eu cefnogaeth, yn ogystal ag i aelodau'r byrddau a'r partneriaid cymunedol a fynychodd y gweithdai ac a rannodd eu hamser, eu gwybodaeth a'u profiad yn hael. Rydym hefyd yn ddiolchgar i gydweithwyr o'r Nuffield Family Justice Observatory, Cafcass Cymru, Llys Cyffuriau ac Alcohol y Teulu Llundain (FDAC) a FDAC Coventry a Warwickshire, a gyfrannodd eu harbenigedd ar ddulliau datrys problemau ac a helpodd i hwyluso'r trafodaethau.

Yngghylch Canolfan Arloesi Cyfiawnder

Mae Canolfan Arloesi Cyfiawnder yn ceisio adeiladu system gyfiawnder y mae ei holl dinasyddion yn ei hystyried yn deg ac yn effeithiol. Rydym yn hyrwyddo arloesedd mewn ymarfer a diwygio polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws systemau cyfiawnder y DU.

Centre for Justice Innovation

Unit 321, Edinburgh House
170 Kennington Lane, London SE11 5DP
Telephone +44 (0) 203 735 9436

Registered charity in England and Wales No 1151939
Company limited by guarantee no. 8274430



This work is licensed under the Creative Commons Attribution-NonCommercial-NoDerivs 3.0 Unported License. To view a copy of this license, visit <http://creativecommons.org/licenses/by-nc-nd/3.0/>